





Tachwedd 2019

*Blog*

*4*

*Bois*



# Y Criw Canol Nos (The Midnight Gang)

Addasiad i Gymreag gan Mared Llwyd oedd Y Criw Canol Nos. Yn wreiddiol mae'r llyfr yn Saesneg gan David Walliams ond cafodd ei gyfieithu i'r Gymraeg a chafodd ei gyhoeddi ar y 3ydd o Dachwedd 2016. Dyma beth sydd i'w ddisgwyl am y stori:


Canol nos yw'r adeg pan mae'r rhan fwyaf o blant yn cysgu'n sownd. Pawb, wrth gwrs, heblaw'r Criw Canol Nos! Megis dechrau mae eu hanturiaethau nhw bryd hynny...

## Y cymeriadau yn y stori:

Nyrs Meese Dilly  
Doctor Lupperts Dad Tom  
Syr Quentin Strillers Sally  
Mr Thews Matron  
Tootsie Tom  
Amber Nelly


Mae'r llyfr yn un doniol am fachgen o'r enw Tom sy'n mynd i ysgol breifat a sy ddim yn hoff o chwaraeon. Mewn gêm griced mae am ddal y bel ond mae'r bêl yn bwrw ei ben a mae'n cael ei fwrw allan yn oer. Ac yna mae'n cael ei rhuthro i'r ysbyty, a phan mae'n deffro maer wedi anghofio am y peth... Mae'r nofel yn un llawn antur ac rydym yn eich argymhell i ddarllen.

Gan Dion J a Jac .T




# Academi Iwan

*Yn y llyfr hwn, sef Academi Iwan, Addewid mawr gan Jeffico a Goffle. Mae Rodrigo yn cael gwahoddiad i ymuno ag Academi Iwan, un or academi gorau yng Ngymru. Hwn yw breuddwyd ei holl fywyd. Yn ein barn ni, credwn bod y llyfr yma yn anturus ac yn siarad am fywyd Rodi a phroblemau ei deulu. Mae cymysgwch o'r digri a stori sensitif ar brydiau.*



# Y Trip

Mae y stori hon yn Trafod Am hanes bachgen sy'n cael ei ystyried yn bach o 'drip' o'r enw Greg Heffley a'i deulu drygionus sef ei frawd mawr cas a drwg a'l frawd bach sef ffefryn ei rinei. Yn y stori hon mae'r trip yn troi ben i waeredar ol Manny sef y brawd bach ennill gwobr sef 'Mochyn Bach Ifanc' rwy'n hoff iawn o'r stori hon yn fwy na'r lleill oherywdd mae'n ddiddorol, doniol a dros ben llestri. Fy hoff ran o'r stori yw pan mae dyn mawr blewog wedi colli ei dymer ar Greg ar ol l'w blentyn ddweud ei fod wedi ei alw'n 'Bierdo'. Mae hefyd ffilm arbennig o dda am y stori ansbaradigaethus o'r enw 'Diary of the wimpy kid long haul'. Er gwybodaeth Jeff Kinney yw'r awdur ac mae dros 12 o lyfrau yn y gyfres wych hon.




# Sgwbidw Aur gan Caryl Lewis

Yn ddiweddar rydw i wedi bod yn darllen y nofel Sgwbidw Aur gan Caryl Lewis. Elgan Davies sydd wedi dylunio y clawr. Mae gan y nofel lawer o gymeriadau gwahanol fel Mam Colin o'r enw Pam, Tad Colin o'r enw Darren, Al, Lee, Claire a mwy ond y prif gymeriad yw Colin. Byddwch yn hoff iawn o'r nofel os ydych yn mwynhau raliio.

Yn fras mae'r nofel am Colin yn helpu ei dad i drwshio ceir rali. Nid yw mam Colin yn hoffi bod tad Colin yn trulio ymaint o amser wrth y ceir ac mae'n colli amynedd. Mae hyn yn gwnued iddi dreulio mwy o amser gyda Al. Y rheswm mae dad yn treulio cymaint o amser wrth y ceir yw i gael arian oherywdd maen nhw'n deulu tlawd. Ond yn y diwedd mae Mam yn trefnu priodas ar gyfer hi a thad Colin, gydag help Al ac mae Tad Colin a Colin yn ennill rali bwysig iawn. Mae diwedd glo hapus iawn i'r nofel hon.

Yn fy marn rydw i'n argymhell y nofel Sgwbidw Aur oherwydd mae'n ddiddorol iawn i bobl sy'n hoffi raliio ac mae diwedd glo gobeithiol a hapus yn dilyn yr holl gwmpo mas yn ystod y nofel.



Gan: Meilyr,  
Ifan a  
Gruffudd